



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2006 Rhif 1863 (Cy.196)**

**2006 No. 1863 (W.196)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

**Rheoliadau Grantiau a  
Benthyciadau Dysgu y Cynulliad  
(Addysg Uwch) (Cymru)  
(Diwygio) 2006**

**The Assembly Learning Grants and  
Loans (Higher Education) (Wales)  
(Amendment) Regulations  
2006**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2006 ("y Prif Reoliadau"). Ceir crynodeb o effaith y prif newidiadau isod.

These Regulations amend the Assembly Learning Grants and Loans (Higher Education) (Wales) Regulations 2006 ("the Principal Regulations"). The effect of the principal changes is summarised below.

Newidiadau a wneir i weithredu gofynion yr UE

Changes made to implement EU requirements

(Rheoliadau 4(a), 5, 7, 17 - 22, 24, 25, 29 - 31, 34 - 36, 39 - 42 ac Atodlen 1).

(Regulations 4(a), 5, 7, 17 - 22, 24, 25, 29 - 31, 34 - 36, 39 - 42 and Schedule 1).

Rhaid i fyfyrwyr fodloni meini prawf cymhwysra penodol er mwyn iddi fod yn bosibl iddynt fod yn gymwys i gael cymorth tuag at naill ai eu ffioedd hyfforddi yn unig neu eu ffioedd hyfforddi a chymorth cynhaliath. Diwygiwyd y meini prawf hyn ac maent yn cynnwys newidiadau a wnaed wrth weithredu Cyfarwyddeb yr UE 2004/38 ar hawliau gwladolion y GE a'u teuluoedd i symud a phreswyllo mewn Aelod-wladwriaethau eraill. Gosodir y meini prawf newydd yn Atodlen 1 ddiwygiedig i'r Prif Reoliadau a amnewidir gan y Rheoliadau hyn.

Students must satisfy certain eligibility criteria to be potentially eligible for support towards either their tuition fees only or their tuition fees and maintenance support. These criteria have been revised and include changes made in implementing EU Directive 2004/38 on the rights of EC nationals and their families to move and reside in other Member States. The new criteria are set out in the revised Schedule 1 to the Principal Regulations as substituted by these Regulations.

Mae'r newidiadau'n cyflwyno categorïau newydd o fyfyrwyr y mae'n bosibl iddynt fod yn gymwys i gael cymorth. Maent yn cynnwys:

The changes introduce new categories of students who may potentially be eligible for support. These include:

- Gwladolion y GE ac aelodau o'u teulu sy'n caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol yn y DU (ar ôl cyfnod parhaus o bum mlynedd yn preswyllo yn y DU) (cymorth ffioedd hyfforddi a chostau byw);
- Aelodau o deulu gwladolion y GE sy'n anweithgar yn economaidd sy'n dal heb gaffael yr hawl i breswyllo'n barhaol (cymorth ffioedd hyfforddi yn unig);

- EC nationals and their family members who acquire the right of permanent residence in the UK (after a continuous period of five years residence in the UK) (tuition fee and living costs support);
- Family members of economically inactive EC nationals who have yet to acquire the right of permanent residence (tuition fee support only);

- Personau o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu bersonau hunangyflogedig Swisaidd ac aelodau o'u teulu (cymorth ffioedd hyfforddi a chostau byw);
- Perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol gweithwyr mudol o'r AEE neu Swisaidd (cymorth ffioedd hyfforddi a chostau byw);
- Gweithwyr "y ffin" a phersonau hunangyflogedig "y ffin" (cymorth ffioedd hyfforddi a chostau byw);
- Plant gwladolion/gwŷr neu wragedd neu bartneriaid sifil gwladolion Swisaidd (cymorth ffioedd hyfforddi a chymorth cynhaliath).
- European Economic Area (EEA) or Swiss self-employed persons and their family members (tuition fee and living costs support);
- Dependent direct relatives in the ascending line of EEA or Swiss migrant workers (tuition fee and living costs support);
- "Frontier" workers and "frontier" self-employed persons (tuition fee and living costs support);
- Children of Swiss nationals/spouses or civil partners of Swiss nationals (tuition fee and maintenance support).

Mae'r newid hefyd yn galluogi gwneud taliadau cymorth pan fo myfyrwyr yn caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol neu'n dod yn un o'r personau canlynol o'r AEE neu Swisaidd: gweithiwr; person hunan-gyflogedig; gweithiwr y ffin neu berson hunangyflogedig y ffin neu aelod o deulu person o'r fath neu blentyn gwladolyn Swisaidd yn ystod blwyddyn academaidd.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud nifer o newidiadau eraill o ganlyniad i'r newidiadau yn yr Atodlen 1 newydd.

#### Benthyciadau ffioedd coleg

(Rheoliadau 4(b), 32, 43 ac Atodlen 2)

Mae diwygiadau i'r Prif Reoliadau yn cyflwyno ffurf newydd ar gymorth sef benthyciad o ran ffioedd coleg sy'n daladwy gan fyfyrwr cymhwysol i goleg neu neuadd breifat barhaol Prifysgol Rhydychen neu i goleg Prifysgol Caergrawnt mewn cysylltiad â bod yn bresennol i ddilyn cwrs cymhwysol.

#### Newidiadau eraill

Diwygir darpariaethau canlynol y Prif Reoliadau, ac ychwanegir darpariaethau newydd fel a ganlyn-

- Rheoliad 3 (Darpariaethau canlyniadol): diwygir er mwyn ei gwneud yn glir bod cyfeiriadau yn y Rheoliadau at yr Ysgrifennydd Gwladol i'w darllen fel cyfeiriadau (neu'n cynnwys cyfeiriadau) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru (rheoliad 6);
- Rheoliad 6 (Cyfnod cymhwysra): diwygir o ran categorïau penodol o fyfyrwyr cymwys (rheoliadau 8 - 11);
- Rheoliad 7: rhai newidau i'r rheolau astudio blaenorol (rheoliadau 12 - 16 a 23);
- Rheoliad 11A newydd: mae'n darparu na chaniateir i grant neu fenthyciad am ffioedd fod yn fwy na'r ffioedd sy'n daladwy gan y myfyrwr, ac er mwyn cael benthyciad rhaid i'r

Change also enables payments of support where students acquire the right of permanent residence or become an EEA or Swiss: worker; self-employed person; frontier worker or frontier self-employed person or are a family member of such a person or the child of a Swiss national during the course of an academic year.

The Regulations also make a number of other changes which are consequential upon the changes in the new Schedule 1.

#### College fee loans

(Regulations 4(b), 32, 43 and Schedule 2).

Amendments to the Principal Regulations introduce a new form of support namely a loan in respect of the college fees payable by a qualifying student to a college or permanent private hall of the University of Oxford or to a college of the University of Cambridge in connection with his or her attendance on a qualifying course.

#### Other changes

The following provisions of the Principal Regulations are amended, and new provisions, added as follows-

- Regulation 3 (Transitional provisions); amended to make it clear that references in the earlier regulations to the Secretary of State are to be read as (or as including) references to the National Assembly for Wales (regulation 6);
- Regulation 6 (duration of period of eligibility): amended in relation to certain categories of eligible students (regulations 8 - 11);
- Regulation 7: some changes to the previous study rules (regulations 12 -16 and 23);
- New regulation 11A: provides that a grant or loan for fees may not exceed the fees payable by the student, and that to receive a loan the

myfyriwr ymrwymo mewn contract gyda'r Cynulliad Cenedlaethol (rheoliad 19);

- Rheoliad 30: newidiadau a wneir i reolau ynghylch cymhwysra am grant cymorth arbennig (rheoliadau 26 - 28);
- Rheoliad 50: newidiadau a wneir i reolau ynghylch cymhwysra myfyrwyr rhan-amser fel bod gan y Cynulliad Cenedlaethol bŵer wrth gefn i roi cymhwysra mewn achos nad ymwneir ag ef yn ddatganedig (gan ddwyn y rheolau yn y cyswllt hwn yn unol â'r rhai ar gyfer myfyrwyr llawn-amser) (rheoliad 33);
- Rheoliad 53: newidiadau i symiau penodol sydd i'w didynnu wrth gyfrifo'r cymorth ar gyfer cyrsiau rhan-amser (rheoliadau 37 - 38);
- Atodlen 4: newidiadau i'r rheolau sy'n rheoli asesu ariannol cyfraniadau myfyrwyr at cymorth ariannol (rheoliadau 44 - 47).

student must enter into a contract with the National Assembly (regulation 19);

- Regulation 30: changes made to rules about eligibility for special support grant (regulations 26 - 28);
- Regulation 50: changes made to rules about eligibility of part-time students so that the National Assembly now has a reserve power to confer eligibility in a case not otherwise expressly covered (bringing the rules in this respect in line with those for full-time students) (regulation 33);
- Regulation 53: changes to certain amounts to be deducted when calculating support for part-time courses (regulations 37 - 38);
- Schedule 4: changes to the rules governing financial assessment of students' contributions to financial support (regulations 44 -47).

**2006 Rhif 1863 (Cy.196)****2006 No. 1863 (W.196)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES**

**Rheoliadau Grantiau a  
Benthyciadau Dysgu y Cynulliad  
(Addysg Uwch) (Cymru)  
(Diwygio) 2006**

**The Assembly Learning Grants and  
Loans (Higher Education) (Wales)  
(Amendment) Regulations  
2006**

*Wedi'u gwneud* 12 Gorffennaf 2006  
*Yn dod i rym* 14 Gorffennaf 2006

*Made* 12 July 2006  
*Coming into force* 14 July 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysg Uwch 1998(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 22, 42(6) and 43(1) of the Teaching and Higher Education Act 1998(1), makes the following Regulations:

**Enwi, cychwyn a chymhwys****Title, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2006.

1.-(1) The title of these Regulations is the Assembly Learning Grants and Loans (Higher Education) (Wales) (Amendment) Regulations 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 14 Gorffennaf 2006 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations come into force on 14 July 2006 and apply in relation to Wales.

**Dehongli****Interpretation**

2. Yn y Rheoliadau hyn-

2. In these Regulations-

ystyr "y Prif Reoliadau" yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2006(2).

"The Principal Regulations" mean the Assembly Learning Grants and Loans (Higher Education) (Wales) Regulations 2006(2).

**Diwygio'r Prif Reoliadau****Amendment of Principal Regulations**

3. Diwygir y Prif Reoliadau fel a ganlyn.

3. The Principal Regulations are amended as follows.

4. Yn rheoliad 2(1)-

4. In regulation 2(1)-

(a) hepgorer yr is-baragraffau sy'n diffinio'r termau canlynol-

(a) omit the sub-paragraphs defining the following terms-

(1) 1998 p. 30; mewnosodwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147 a Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adran 42. Diwygiwyd adran 42 ac adran 43 gan Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) Atodlen 12. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149)(C.79)).

(2) O.S. 2006/126 (Cy.19).

(1) 1998 c. 30; section 22 was amended by the Learning and Skills Act 2000 (c. 21), section 146 and Schedule 11, the Income Tax (Earnings and Pensions) Act 2003 (c. 1), Schedule 6, the Finance Act 2003 (c. 14), section 147 and the Higher Education Act 2004 (c. 8), section 42. Section 42 and section 43 were amended by the Education Act 2002 (c. 32), Schedule 12. The functions of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by section 44 of the Higher Education Act 2004 (Higher Education Act 2004 (Commencement No. 2 and Transitional Provision) (Wales) Order 2005 (S.I. 2005/1833 (W.149)(c.79)).

(2) S.I. 2006/126 (W.19).

"Cytundeb yr AEE" ("*EEA Agreement*");

"gweithiwr mudol yr AEE" ("*EEA migrant worker*");

"Ardal Economaidd Ewropeaidd" ("*European Economic Area*"); a

"Cytundeb y Swistir" ("*Switzerland Agreement*"); a

(b) yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder-

"ystyr "benthyciad ffioedd coleg" ("*College fee loan*") yw benthyciad yn unol â rheoliadau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 22 o'r Ddeddf o ran y ffioedd coleg sy'n daladwy gan fyfyrwr i goleg neu neuadd breifat barhaol Prifysgol Rhydychen neu i un o golegau Prifysgol Caergrawnt;" ac

"mae i "ffioedd" yr ystyr a roddir i "fees" yn adran 41(1) o Ddeddf 2004 ac eithrio yn achos ffioedd coleg;"

5. Yn rheoliad 2, hepgorer paragraffau (2) i (5).

6. Mewnosoder ar ôl paragraff (4) o reoliad 3, y paragraff canlynol-

"(4A) At ddibenion paragraffau (2) i (4), mae unrhyw gyfeiriad at yr Ysgrifennydd Gwladol o ran unrhyw swyddogaeth a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan y Rheoliadau y cyfeirir atynt yn y paragraffau hynny, i'w ddarllen o ran Cymru fel cyfeiriad at-

(a) y Cynulliad Cenedlaethol, yn achos swyddogaeth y cyfeirir ati yn adran 44(1) o'r Ddeddf; neu

(b) y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Ysgrifennydd Gwladol, yn achos swyddogaeth y cyfeirir ati yn adran 44(2) o'r Ddeddf."

7. Yn rheoliad 4(2)(a), o flaen y geiriau "Atodlen 1" mewnosoder y geiriau "Rhan 2 o".

8. Yn rheoliad 6(4), ar ôl y geiriau "Er gwaethaf paragraff (1)" mewnosoder y geiriau "ac yn ddarostyngedig i baragraff 6(4B)."

9. Ar ôl rheoliad 6(4) mewnosoder-

"(4A) Mae paragraff (4B) yn gymwys i-

(a) myfyriwr cymwys dan y drefn newydd sydd ar gwrs pen-ben o fath a ddisgrifir ym mharagraff (a) neu (b) o'r diffiniad "cwrs pen-ben" yn rheoliad 2;

(b) myfyriwr cymwys dan y drefn newydd-

(i) sydd wedi cwblhau cwrs amser-llawn a grybwyllir ym mharagraff 2 neu 3 o Atodlen 2;

"EEA Agreement" ("*Cytundeb yr AEE*");

"EEA migrant worker" ("*gweithiwr mudol yr AEE*");

"European Economic Area" ("*Ardal Economaidd Ewropeaidd*"); and

"Switzerland Agreement" ("*Cytundeb y Swistir*"); and

(b) in the appropriate place in alphabetical order insert-

"College fee loan" ("*benthyciad ffioedd coleg*") means a loan pursuant to regulations made by the National Assembly under section 22 of the Act in respect of the college fees payable by a student to a college or permanent private hall of the University of Oxford or to a college of the University of Cambridge;" and

"fees" ("*ffioedd*") has the meaning given in section 41(1) of the 2004 Act except in the case of college fees;"

5. In regulation 2, omit paragraphs (2) to (5).

6. Insert after paragraph (4) of regulation 3, the following paragraph-

"(4A) For the purposes of paragraphs (2) to (4), any reference to the Secretary of State in relation to any function conferred on the Secretary of State by the Regulations referred to in those paragraphs, is to be read in relation to Wales as a reference to-

(a) the National Assembly, in the case of a function referred to in section 44(1) of the Act; or

(b) the National Assembly or the Secretary of State, in the case of a function referred to in section 44(2) of the Act."

7. In regulation 4(2)(a), before the words "Schedule 1" insert the words "Part 2 of".

8. In regulation 6(4), after the words "Despite paragraph (1)" insert the words "and subject to paragraph 6(4B)."

9. After regulation 6(4) insert-

"(4A) Paragraph (4B) applies to-

(a) a new system eligible student who is on an end-on course of the kind described in paragraph (a) or (b) of the definition of "end-on course" in regulation 2;

(b) a new system eligible student who has-

(i) completed a full-time course mentioned in paragraph 2 or 3 of Schedule 2;

- (ii) sydd ar gwrs gradd gyntaf amser-llawn (heblaw gradd gyntaf ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon) na ddechreuodd arno yn union ar ôl y cwrs y cyfeirir ato ym mharagraff (i); a
- (iii) nad yw wedi cymryd cwrs gradd gyntaf amser-llawn ar ôl y cwrs y cyfeirir ato ym mharagraff (i) ac o flaen y cwrs presennol;
- (c) myfyriwr cymwys dan y drefn newydd-
  - (i) sydd wedi cwblhau gradd sylfaenol amser-llawn;
  - (ii) sydd ar gwrs gradd anrhydedd amser-llawn na ddechreuodd arno yn union ar ôl y cwrs y cyfeirir ato ym mharagraff (i); a
  - (iii) nad yw wedi cymryd cwrs gradd gyntaf amser-llawn ar ôl y cwrs y cyfeirir ato ym mharagraff (i) ac o flaen y cwrs presennol; ac
- (ch)myfyriwr cymwys dan yr hen drefn sydd ar gwrs pen-ben o fath a ddisgrifir ym mharagraff (a) a (b) o'r diffiniad o gwrs "pen-ben" yn rheoliad 2."

**10.** Ar ôl rheoliad 6(4A) (a fewnosodir gan reoliad 9 uchod), mewnosoder-

"(4B) Er gwaethaf paragraff (1), dim ond ar gyfer grantiau neu fenthyciadau at ffioedd neu grantiau at gostau byw mewn perthynas â'r cwrs presennol am y nifer o flynyddoedd academaidd sy'n hafal i (D + X)- Pr C y mae myfyriwr cymwys y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo yn gymwys."

**11.** Yn rheoliad 6(9) mewnosoder-

- (a) ar ôl paragraff (a)-
  - "(aa) D yw 3 a nifer y blynyddoedd academaidd sy'n llunio cyfnod arferol y cwrs p'un bynnag yw'r mwyaf;"
- (b) ar ôl paragraff (c)-
  - "(ca) X yw 1 pan oedd cyfnod arferol y cwrs rhagarweiniol yn llai na thair blynedd a phan oedd cyfnod arferol y cwrs rhagarweiniol yn dair blynedd." ac
- (c) ar ôl paragraff (9)(ch)-
  - "(da) PrC yw'r nifer o flynyddoedd academaidd y treuliodd y myfyriwr ar y cwrs rhagarweiniol ac eithrio unrhyw flynyddoedd yn ailadrodd yr astudiaeth am resymau personol cryf:"

- (ii) is on a full-time first degree course (other than a first degree course for the initial training of teachers) that he or she did not begin immediately after the course referred to in paragraph (i); and
- (iii) has not taken a full-time first degree course after the course referred to in paragraph (i) and before the present course;
- (c) a new system eligible student who has-
  - (i) completed a full-time foundation degree course;
  - (ii) is on a full-time honours degree course that he or she did not begin immediately after the course referred to in paragraph (i); and
  - (iii) has not taken a full-time first degree course after the course referred to in paragraph (i) and before the present course; and
- (d) an old system eligible student who is a student on an end-on course of the kind described in paragraphs (a) and (b) of the definition of "end - on course" in regulation 2."

**10.** After regulation 6(4A) (as inserted by regulation 9 above), insert-

"(4B) Despite paragraph (1), an eligible student to whom this paragraph applies is only eligible for grants or loans for fees and grants for living costs in respect of the present course for the number of academic years equal to (D + X)- Pr C."

**11.** In regulation 6(9) insert-

- (a) after paragraph (a)-
  - "(aa) D is the greater of 3 and the number of academic years that make up the ordinary duration of the course;"
- (b) after paragraph (c) -
  - "(ca) X is 1 where the ordinary duration of the preliminary course was less than three years and where the ordinary duration of the preliminary course was three years;" and
- (c) after paragraph (9)(d)-
  - "(da) PrC is the number of academic years that the student spent on the preliminary course excluding any years of repeat study for compelling personal reasons;"

12. Yn rheoliad 7(1), yn lle "baragraff (3)" rhodder "baragraffau (3) a (3A)" a hepgorer y geiriau "neu grant at gostau byw".

13. Yn rheoliad 7(2), yn lle'r geiriau "baragraffau (3) a (4)" rhodder y geiriau "paragraffau (3A) a (4)".

14. Ar ôl rheoliad 7(3) mewnosoder-

"(3A) Os ystyrir bod y cwrs presennol yn gwrs sengl oherwydd rheoliadau 5(4) a 5(5) a'i fod yn arwain at radd anrhydedd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig yn cael ei rhoi i fyfyrwr cymwys o flaen y radd derfynol neu gymhwyster cyfatebol, ni chaiff y myfyrwr cymwys ei rwystro rhag dod yn gymwys i gael cymorth o dan baragraff (1) neu (2) o ran unrhyw ran o'r cwrs sengl yn rhinwedd y ffaith iddo gael y radd anrhydedd honno."

15. Yn lle rheoliad 7(4) rhodder-

"Nid yw paragraff (2) yn gymwys-

- (a) os yw'r cwrs dynodedig yn arwain at gymhwyster fel gweithiwr cymdeithasol;
- (b) os yw'r myfyrwr cymwys i dderbyn unrhyw daliad o dan fwrsari gofal iechyd y cyfrifwyd y swm amdano drwy gyfeirio at ei incwm neu lwfans gofal iechyd Albanaidd y cyfrifwyd y swm amdani drwy gyfeirio at ei incwm o ran unrhyw flwyddyn academaidd o'r cwrs; neu
- (c) os yw'r myfyrwr ar gwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon."

16. Ar ôl rheoliad 7(7) mewnosoder-

"(8) Mae paragraffau (6A) a (6B) o reoliad 18 yn estyn darpariaethau'r rheoliad hwn ynghylch cymhwyster ar gyfer benthyciadau ffioedd a grantiau ffioedd at gostau byw y cyfeirir atynt yn y paragraffau hynny, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol."

17. Yn lle rheoliad 10(2)(a), rhodder y canlynol-

"(a) os bydd un o'r digwyddiadau a restrir yn rheoliad 11C yn digwydd ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae'r ceisydd yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi, ac os felly rhaid i'r cais gyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol o fewn cyfnod o naw mis sy'n dechrau gyda'r diwrnod pan ddigwyddodd y digwyddiad perthnasol;"

18. Hepgorer rheoliad 10(2)(b) ac (c).

19. Ar ôl rheoliad 11, mewnosoder y Rhan newydd sy'n dilyn-

12. In regulation 7(1), for "paragraph (3)" substitute "paragraphs (3) and (3A)" and omit the words "or a grant for living costs".

13. In regulation 7(2) for the words "paragraphs (3) and (4)" substitute the words "paragraphs (3A) and (4)".

14. After regulation 7(3) insert-

"(3A) Where the present course is considered to be a single course because of regulations 5(4) and 5(5) and it leads to an honours degree from an institution in the United Kingdom being conferred on the eligible student before the final degree or equivalent qualification, the eligible student is not prevented from qualifying for support under paragraph (1) or (2) in respect of any part of the single course by virtue of having that honours degree."

15. For regulation 7(4) substitute-

"Paragraph (2) does not apply where-

- (a) the designated course leads to qualification as a social worker;
- (b) the eligible student is to receive any payment under a healthcare bursary the amount of which is calculated by reference to his or her income or a Scottish healthcare allowance the amount of which is calculated by reference to his or her income in respect of any academic year of the course; or
- (c) the student is on a course for the initial training of teachers."

16. After regulation 7(7) insert-

"(8) Paragraphs (6A) and (6B) of regulation 18 extend the provisions of this regulation relating to qualification for fee loans and fee grants to the grants for living costs referred to in those paragraphs, subject to specified exceptions."

17. For regulation 10(2)(a), substitute the following-

"(a) one of the events listed in regulation 11C occurs after the first day of the academic year in respect of which the applicant is applying for support, in which case the application must reach the National Assembly within a period of nine months beginning with the day on which the relevant event occurs."

18. Omit regulation 10(2)(b) and (c).

19. After regulation 11 insert the following new Part-

### "RHAN 3A

#### GWNEUD CEISIADAU AM GRANTIAU A BENTHYCIADAU AT FFIODEDD

##### **Cymorth Ffioedd yn Gyffredinol**

**11A.**-(1) Ni chaniateir i grant o dan Ran 4 neu fenthyciad o dan Ran 5 o ran blwyddyn academaidd fod yn fwy na'r ffioedd sy'n daladwy gan y myfyriwr o ran y flwyddyn academaidd honno.

(2) I gael benthyciad o dan y Rheoliadau hyn rhaid i'r myfyriwr ymrwymo mewn contract gyda'r Cynulliad Cenedlaethol.

##### **Myfyrrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod blwyddyn academaidd**

**11B.** Os bydd un o'r digwyddiadau a restrir yn rheoliad 11C yn digwydd yn ystod blwyddyn academaidd-

- (a) gall myfyriwr ddod yn gymwys i gael grantiau a benthyciadau o dan Rannau 4 neu 5 ar yr amod bod y digwyddiad perthnasol wedi digwydd yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn academaidd; a
- (b) nad yw'r cyfryw grantiau a benthyciadau ar gael o ran unrhyw flwyddyn academaidd sy'n dechrau cyn y flwyddyn academaidd pan ddigwyddodd y digwyddiad perthnasol.

##### **Digwyddiadau**

**11C.** Dyma'r digwyddiadau-

- (a) mae cwrs y myfyriwr yn dod yn gwrs dynodedig;
- (b) pan gydnabyddir bod y myfyriwr, ei briod, ei bartner sifil neu ei riant yn ffoadur neu pan fydd yn dod yn berson sydd â chaniatâd ganddo i ddod i mewn neu aros (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1);
- (c) pan fydd gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Gymuned Ewropeaidd os yw'r myfyriwr yn wladolyn o'r wladwriaeth honno neu'n aelod o deulu (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1) gwladolyn o'r wladwriaeth honno;
- (ch) pan fydd y myfyriwr yn dod yn aelod o deulu (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1) gwladolyn o'r GE;
- (d) pan fydd y myfyriwr yn caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1);
- (dd) pan fydd y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 6(1)(a) o Atodlen 1; neu
- (e) pan fydd y myfyriwr yn dod yn blentyn i wladolyn Swisaidd."

### "PART 3A

#### APPLYING FOR GRANTS AND LOANS FOR FEES

##### **Fee Support Generally**

**11A.**-(1) No grant under Part 4 or loan under Part 5 in respect of an academic year may exceed the fees payable by the student in respect of that academic year.

(2) To receive a loan under these Regulations the student must enter into a contract with the National Assembly.

##### **Students becoming eligible during the course of an academic year**

**11B.** Where any of the events listed in regulation 11C occurs in the course of an academic year-

- (a) a student may qualify for grants and loans under Part 4 or 5 provided that the relevant event occurred within the first three months of the academic year; and
- (b) such grants and loans are not available in respect of any academic year beginning before the academic year in which the relevant event occurred.

##### **Events**

**11C.** The events are-

- (a) the student's course becomes a designated course;
- (b) the student, his or her spouse, his or her civil partner or his or her parent is recognised as a refugee or becomes a person with leave to enter or remain (as defined in Part 1 of Schedule 1);
- (c) a state accedes to the European Community where the student is a national of that state or a family member (as defined in Part 1 of Schedule 1) of a national of that state;
- (d) the student becomes a family member (as defined in Part 1 of Schedule 1) of an EC national;
- (e) the student acquires the right of permanent residence (as defined in Part 1 of Schedule 1);
- (f) the student becomes a person described in paragraph 6(1)(a) of Schedule 1; or
- (g) the student becomes the child of a Swiss national."



**20.** Yn y penawdau ar gyfer Rhan 6 a rheoliad 18 ar ôl y geiriau "gostau byw" mewnosoder y geiriau "a chostau eraill".

**21.** Yn rheoliadau 18(1), 18(2), 18(3), 18(5) ac 18(7) hepgorer y geiriau "at gostau byw" bob tro y maent yn digwydd.

**22.** Yn rheoliad 18(2) rhodder yn lle'r geiriau "os paragraff 7 yw'r unig baragraff o baragraffau 1 i 8 o Atodlen 1 y mae'r myfyriwr yn syrthio odano", y geiriau "os paragraff 9 yw'r unig baragraff yn Rhan 2 o Atodlen 1 y mae'r myfyriwr yn dod i mewn iddo".

**23.** Ar ôl rheoliad 18(6) mewnosoder-

"(6A) Yn ddarostyngedig i baragraff (6B), nid oes gan fyfyrwr cymwys yr hawl i gael grant o dan rheoliad 28, 29 neu 30 o ran blwyddyn academaidd cwrs dynodedig os nad oes gan y myfyriwr hawl i gael cymorth perthnasol o ran y flwyddyn academaidd honno.

(6B) Nid yw paragraff (6A) yn gymwys os y rheswm nad oes gan y myfyriwr hawl i gymorth perthnasol yw oherwydd-

(a) mae'n cymryd rhan yng nghynllun gweithredu'r Gymuned Ewropeaidd ar gyfer symudedd myfyrwyr prifysgol a elwir ERASMUS ac mae ei gwrs yn un y cyfeirir ato yn rheoliad 5(1)(ch); ac mae holl gyfnodau astudio yn ystod y flwyddyn academaidd mewn sefydliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig; neu

(b) mae'r cwrs gradd yn gwrs hyblyg ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

(6C) Ym mharagraff (6A) ystyr "cymorth perthnasol", mewn achos grant o dan reoliad 28, yw grant at ffioedd, neu, yn achos grant o dan reoliad 29 neu 30, yw benthyciad at ffioedd."

**24.** Yn rheoliad 18(8)(b) rhodder yn lle'r geiriau "y'i crybwyllir ym mharagraff 3 o Atodlen 1", y geiriau "fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1", a hepgorer y "neu" sy'n dod o flaen yr is-baragraff hwnnw.

**25.** Ar ôl rheoliad 18(8)(b) mewnosoder-

"(c) pan fydd gwladwriaeth y mae'r myfyriwr yn wladolyn ohoni yn ymaelodi â'r Gymuned Ewropeaidd os yw'r myfyriwr wedi preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy'r cyfnod o dair blynedd sy'n union o flaen diwrnod cyntaf blwyddyn gyntaf y cwrs academaidd;

(ch) pan fydd y myfyriwr yn caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1);

(d) pan fydd y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 6(1)(a) o Atodlen 1; neu

**20.** In the headings for Part 6 and regulation 18 after the words "for living" insert the words "and other".

**21.** In regulations 18(1), 18(2), 18(3), 18(5) and 18(7) omit the words "for living costs" wherever they appear.

**22.** In regulation 18(2) substitute for the words "from 1 to 8 of Schedule 1 into which the student falls is paragraph 7", the words "in Part 2 of Schedule 1 into which the student falls is paragraph 9".

**23.** After regulation 18(6) insert-

"(6A) Subject to paragraph (6B), an eligible student does not qualify for a grant under regulation 28, 29 or 30 in respect of an academic year of the designated course if the student does not qualify for relevant support in respect of that academic year .

(6B) Paragraph (6A) does not apply if the reason that the student does not qualify for relevant support is because-

(a) he or she is participating in the action scheme of the European Community for the mobility of university students known as ERASMUS and his or her course is a course referred to in regulation 5(1)(d); and all the periods of study during the academic year are at an institution outside the United Kingdom; or

(b) the degree course is a flexible ITT course.

(6C) In paragraph (6A) "relevant support" means, in the case of a grant under regulation 28, a grant for fees, or, in the case of a grant under regulation 29 or 30, a loan for fees."

**24.** In regulation 18(8)(b) substitute for the words "mentioned in paragraph 3 of Schedule 1", the words "defined in Part 1 of Schedule 1", and omit the "or" preceding that sub-paragraph.

**25.** After regulation 18(8)(b) insert-

"(c) the state of which the student is a national accedes to the European Community where the student has been ordinarily resident in the United Kingdom and Islands throughout the three-year period immediately preceding the first day of the first academic year of the course;

(d) the student acquires the right of permanent residence (as defined in Part 1 of Schedule 1);

(e) the student becomes a person described in paragraph 6(1)(a) of Schedule 1; or

(dd) pan fydd y myfyriwr yn dod yn blentyn i wladolyn Swisaidd."";

26. Yn rheoliad 30(2) ar ôl "1992" mewnosoder y geiriau ", neu os ymdrinnir ag ef fel rhywun sy'n atebol i wneud taliadau o ran annedd a ragnodwyd gan reoliadau a wnaed o dan adran 130(2) o'r Ddeddf honno".

27. Yn rheoliad 30(5)(c), ar ôl "£26,500," mewnosoder "neu os yw'r myfyriwr pan fydd yn gwneud cais am y grant yn dewis peidio â rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i gyfrifo incwm yr aelwyd,".

28. Yn rheoliad 30(6)(ch) yn lle'r gair "cynhaliaeth" rhodder y geiriau "cymorth arbennig".

29. Yn rheoliad 31(3) rhodder yn lle'r geiriau "os paragraff 7 yw'r unig baragraff o baragraffau 1 i 8 o Atodlen 1 y mae'r myfyriwr yn syrthio odano", y geiriau "os paragraff 9 yw'r unig baragraff yn Rhan 2 o Atodlen 1 y mae'r myfyriwr yn dod i mewn iddo".

30. Yn rheoliad 39(2)(b) rhodder yn lle'r geiriau "fel y crybwyllir ym mharagraff 3 o Atodlen 1", "fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1".

31. Ar ôl rheoliad 39(2)(b) mewnosoder-

"(c) pan fydd gwladwriaeth y mae'r myfyriwr yn wladolyn ohoni yn ymaelodi â'r Gymuned Ewropeaidd os yw'r myfyriwr wedi preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy'r cyfnod o dair blynedd sy'n union o flaen diwrnod cyntaf blwyddyn gyntaf y cwrs academiaidd;

(ch) pan fydd y myfyriwr yn caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1);

(d) pan fydd y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 6(1)(a) o Atodlen 1; neu

(dd) pan fydd y myfyriwr yn dod yn blentyn i wladolyn Swisaidd.".

32. Ar ôl rheoliad 44, mewnosoder-

## "RHAN 8A

### BENTHYCIADAU FFIOEDD COLEG

44A. Mae benthyciad ffioedd coleg ar gael i fyfyrwr cymwys yn unol ag Atodlen 3A."

33. Ar ôl rheoliad 50(1), mewnosoder-

"(1A) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol roi cymhwystra i gael cymorth o dan y Rhan hon i berson-

(a) nad yw'n fyfyrwr cymwys rhan-amser; neu

(f) the student becomes the child of a Swiss national.".

26. In regulation 30(2) after "1992" insert the words ", or if he or she is treated as being liable to make payments in respect of a dwelling prescribed by regulations made under section 130(2) of that Act".

27. In regulation 30(5)(c), after "£26,500," insert "or the student opts when applying for the grant not to provide the information needed to calculate the household income,".

28. In regulation 30(6)(d) for the word "maintenance" substitute the words "special support".

29. In regulation 31(3) substitute for the words "from 1 to 8 of Schedule 1 into which the student falls is paragraph 7", the words "in Part 2 of Schedule 1 into which the student falls is paragraph 9".

30. In regulation 39(2)(b) substitute for the words "mentioned in paragraph 3 of Schedule 1", "defined in Part 1 of Schedule 1".

31. After regulation 39(2)(b) insert-

"(c) the state of which the student is a national accedes to the European Community where the student has been ordinarily resident in the United Kingdom and Islands throughout the three-year period immediately preceding the first day of the first academic year of the course;

(d) the student acquires the right of permanent residence (as defined in Part 1 of Schedule 1);

(e) the student becomes a person described in paragraph 6(1)(a) of Schedule 1; or

(f) the student becomes the child of a Swiss National.".

32. After regulation 44, insert-

## "PART 8A

### COLLEGE FEE LOANS

44A. A college fee loan is available to an eligible student in accordance with Schedule 3A."

33. After regulation 50(1), insert-

"(1A) The National Assembly may confer eligibility for support under this Part on a person who-

(a) is not an eligible part-time student; or

(b) sy'n fyfyrwr cymwys rhan-amser ond nad oes hawl ganddo i gael cymorth o dan y Rhan hon."

34. Yn rheoliad 50(2)(a), o flaen y geiriau "Atodlen 1" mewnosoder y geiriau "Rhan 2 o".

35. Yn rheoliad 50(7) rhodder yn lle'r geiriau "os paragraff 7 yw'r unig baragraff o baragraffau 1 i 8 o Atodlen 1 y mae'r myfyriwr yn syrthio odano", y geiriau "os paragraff 9 yw'r unig baragraff yn Rhan 2 o Atodlen 1 y mae'r myfyriwr yn dod i mewn iddo".

36. Yn lle paragraff (13) a (14) o reoliad 50, rhodder-

"(13) Os bydd un o'r digwyddiadau a restrir ym mharagraff (14) yn digwydd yn ystod blwyddyn academaidd-

(a) gall myfyriwr ddod yn gymwys i gael grant at ffioedd o ran y flwyddyn academaidd honno yn unol â'r Rhan hon ar yr amod bod y digwyddiad perthnasol wedi digwydd yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn academaidd; a

(b) nid yw grant o ran ffioedd ar gael o ran unrhyw flwyddyn academaidd sy'n dechrau cyn y flwyddyn academaidd pan ddigwyddodd y digwyddiad perthnasol.

"(13A) Pan fydd un o'r digwyddiadau a restrir yn is-baragraffau (a), (b), (d), (dd), (e) neu (f) o baragraff (14) yn digwydd yn ystod blwyddyn academaidd-

(a) gall myfyriwr fod yn gymwys i gael grant ar gyfer llyfrau, teithio a threuliau eraill o ran y flwyddyn academaidd honno yn unol â'r Rhan hon; a

(b) nid yw grant ar gyfer llyfrau, teithio a threuliau eraill ar gael o ran unrhyw flwyddyn academaidd sy'n dechrau cyn y flwyddyn academaidd pan ddigwyddodd y digwyddiad perthnasol.

(14) Dyma'r digwyddiadau-

(a) pan fydd cwrs y myfyriwr yn dod yn gwrs rhan-amser dynodedig;

(b) pan gydnabyddir bod y myfyriwr, ei briod, ei bartner sifil neu ei riant yn ffoadur neu pan fydd yn dod yn berson sydd â chaniatâd ganddo i ddod i mewn neu aros (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1);

